



FARMING
connect
cyswllt
FFERMIO

08456 000 813

Cymhariaeth o arolygon gwaelodlin Cyswllt Ffermio ar gyfer 2016 a 2018

Cate L. Williams

Canolfan Cyfnewid Gwybodaeth Cyswllt Ffermio,
IBERS, Prifysgol Aberystwyth.



Cynnwys

Cyflwyniad	4
Canlyniadau'r arolwg.....	4
C1 (a): A ydych chi'n meincnodi (cymharu) perfformiad eich busnes gyda busnesau eraill tebyg yn ffisegol, yn ariannol neu'r ddau?.....	4
C1 (b): Os felly, a ydych chi wedi dechrau meincnodi o ganlyniad i unrhyw un o'r gweithgareddau Cyswllt Ffermio canlynol dros y ddwy flynedd diwethaf?	5
C1 (c): A ydych chi wedi defnyddio eich ffigyrau meincnodi er mwyn gwneud newidiadau i'r ffordd yr ydych yn rheoli eich fferm dros y ddwy flynedd diwethaf?	7
C2: A oes gan eich busnes gynllun olyniaeth (rhywun i gymryd yr awenau pan fyddwch chi'n ymddeol)?	7
C3 (a): A ydych chi wedi ymgymryd ag unrhyw un o'r canlynol ar eich fferm dros y ddwy flynedd diwethaf?	9
C3 (b): Os mai "ydym" oedd ateb ar gyfer unrhyw un o'r uchod, a ydych chi wedi defnyddio'r wybodaeth er mwyn gwneud newidiadau i'r modd yr ydych yn rheoli eich fferm dros y ddwy flynedd diwethaf?	11
C4: A oes gennych chi uchelgais glir ar gyfer eich busnes dros y 3-5 mlynedd nesaf?....	11
C5: A oes gennych gynllun busnes ysgrifenedig sy'n amlinellu sut y byddwch yn gweithredu eich uchelgais?	12
C6 (a): A ydych chi'n defnyddio meddalwedd electronig ar hyn o bryd i reoli perfformiad eich diadell/buches?	12
C6 (b): Os ydych, rhowch fanylion o'r math o system yr ydych yn ei weithredu?.....	13
C7: 2016: A ydych chi neu eraill sy'n gweithio ar y daliad yn bwriadu ymgymryd â hyfforddiant achrededig drwy raglen Cyswllt Ffermio dros y 2 flynedd nesaf? 2018: A ydych chi'n bwriadu cwblhau unrhyw gyrsiau hyfforddiant achrededig dros y 12 mis nesaf?	14
C8 (a): 2016: A oes gennych chi goetir ar eich fferm? 2018: A ydych chi wedi ystyried plannu coed ar eich fferm?	15
C8 (b): 2016: Os felly, a ydych chi'n gwneud unrhyw un o'r canlynol?.....	15
Q9: Heblaw TB buchol, beth yw'r broblem ieuchyd fwyaf ar hyn o bryd sy'n berthnasol i'ch daliad?	16
C10 (a): Ar raddfa o 1-6, pa mor bwysig yw rheoli'r canlynol i'ch busnes: (1 yn golygu nad yw'n bwysig o gwbl a 6 yn golygu pwysig iawn)?	19
<i>Noder: Mae'n bwysig cofnodi tueddiadau o'r ystod data cyffredinol. Bydd yr ymatebion i'r set yma o gwestiynau'n cael eu cyflwyno mewn tablau ar wahân.</i>	
C10 (b): Ar raddfa o 1-6, pa mor bwysig yw rheoli ansawdd pridd i'ch busnes?.....	21
C10 (c): Ar raddfa o 1-6, pa mor bwysig yw rheoli ansawdd dŵr i'ch busnes?	22
C10 (d): Ar raddfa o 1-6, pa mor bwysig yw rheoli'r tir i'ch busnes?	23
C10 (e): Ar raddfa o 1-6, pa mor bwysig yw rheoli dŵr i'ch busnes:.....	24

C10 (f): Ar raddfa o 1-6, pa mor bwysig yw rheoli ansawdd aer i'ch busnes?	25
C10 (g): Ar raddfa o 1-6, pa mor bwysig yw rheoli gwastraff i'ch busnes:.....	26
11. Pa gefnogaeth arall hoffech chi ei dderbyn gan Cyswllt Ffermio i wella effeithlonrwydd a chynhyrchiant eich busnes?	27
2016:	27
2018:	28
Sylwadau i gloi	31

Cyflwyniad

Mae arolwg gwaelodlin Cyswllt Ffermio wedi cael ei gynnal yn 2016, 2017 a 2018. Mae'r adroddiad hwn yn cymharu canlyniadau arolygon 2016 a 2018. Yn 2016, holwyd 1082 o ffermwyr a'u busnesau, ac yn 2018, cymerodd 915 o ffermwyr ran yn yr arolwg hwn.


Mae prif ganfyddiadau'r adroddiad yn nodi bod ffermwyr yn ymgysylltu gyda gweithgareddau a ddarperir gan Cyswllt Ffermio ac yn gallu dehongli'r wybodaeth a gyhoeddir a'i gweithredu ar eu busnesau fferm. Mae adborth yn awgrymu y byddai aelodau'n awyddus i weld cyfathrebu/hyrwyddo yn fwy aml ynglŷn â digwyddiadau, cyrsiau a chyfleoedd gan Cyswllt Ffermio. Mae canlyniadau hefyd yn dangos prinder posibl mewn busnesau fferm sydd â chynllun busnes ysgrifenedig, gyda nifer yn nodi bod ganddynt uchelgais glir ar gyfer eu busnesau, ond nifer fechan yn meddu ar gynllun ysgrifenedig. Mae'r adroddiad canlynol yn rhoi trosolwg o ymddygiad ffermwyr a gweithgareddau ar fferm, yn gyffredinol ac o ganlyniad i raglen Cyswllt Ffermio.

Noder: Ar gyfer rhai cwestiynau, mae cyfanswm yr ymatebion yn uwch na nifer y cyfranogwyr. Mae hyn o ganlyniad i ymatebwyr yn cynnig mwy nag un ateb i gwestiwn penodol (a allai gynnwys hyd at bum dewis gwahanol, gan ddibynnu ar y cwestiwn).

Canlyniadau'r arolwg

CI (a): A ydych chi'n meincnodi (cymharu) perfformiad eich busnes gyda busnesau eraill tebyg yn ffisegol, yn ariannol neu'r ddau?

Ymateb	Nifer yr ymatebion		Canran yr Ymatebion (%)	
	2016	2018	2016	2018
Yn ariannol	27	41	2.3	12.8
Yn ffisegol	13	74	1.1	23.2
Y ddau	206	199	17.5	62.4
Nac ydym	933	Amherthnasol	79	8.6
Cyfanswm yr ymatebion	1179	319	Amherthnasol	34.9
Cyfanswm heb ymateb	0	596	Amherthnasol	65.1



Yn gyffredinol, roedd nifer yr ymatebwyr a oedd yn meincnodi wedi cynyddu rhwng 2016 a 2018, o 20% i 30%. Yn 2016, nid oedd mwyafrif (86%) yr ymatebwyr yn meincnodi eu busnesau; o'i gymharu, dim ond 30% o'r rhai a ymatebodd i arolwg 2018 oedd yn nodi nad oeddent yn cynnal unrhyw fath o waith meincnodi.

Roedd mwyafrif yr ymatebwyr yn meincnodi eu busnes yn ffisegol ac yn ariannol, ac roedd y lefel hon yn eithaf tebyg rhwng 2016 a 2018 (17% a 18% yn eu trefn). Gellir gweld cynnydd sylweddol yn y nifer sy'n meincnodi eu busnes o ran un elfen yn unig rhwng 2016 a 2018, gyda nifer y rhai'n meincnodi perfformiad ariannol yn cynyddu 34% a'r rhai a oedd yn meincnodi perfformiad ffisegol yn cynyddu 82%.

Mae arfer dda wrth feincnodi yn creu cyswllt rhwng prosesau a pherfformiad, ac yn cynnig cydbwysedd rhwng cynhyrchiant, ffactorau ariannol, amgylcheddol a chymdeithasol, gan ddarparu gwybodaeth, sy'n caniatáu ffermwyr i ddehongli'r wybodaeth yn ddiamau (Ronan a Cleary, 2000). Fodd bynnag, mae'n bwysig defnyddio mesuriadau cywir wrth asesu busnes, gan fod canolbwyntio ar fesuriad unigol yn gallu bod yn gamarweiniol, er enghraifft, ni fyddai archwilio proffidioldeb ar ei ben ei hun yn adlewyrchu "arfer dda" (Lawrence et al., 1998; Ronan a Cleary, 2000). Felly, dylai Cyswllt Ffermio barhau i hyrwyddo manteision meincnodi ar gyfer busnesau o ran effeithlonrwydd cynhyrchiant, drwy ddefnyddio astudiaethau achos o fusnesau sydd wedi defnyddio cynllun Mesur i Reoli Cyswllt Ffermio i wella eu heffeithlonrwydd a pherfformiad eu busnesau.

CI (b): Os felly, a ydych chi wedi dechrau meincnodi o ganlyniad i unrhyw un o'r gweithgareddau Cyswllt Ffermio canlynol dros y ddwy flynedd diwethaf?

Gweithgaredd	Nifer yr ymatebion		Canran yr Ymatebion (%)	
	2016	2018	2016	2018
Agrisgôp	2	38	1.4	16.9
Grwpiau trafod	45	180	32.6	80.0
Grwpiau Trafod, Agrisgôp	1	24	0.7	10.7
Grwpiau Trafod, Academi Amaeth	Amherthnasol	3	Amherthnasol	1.3
Grwpiau Trafod, Agrisgôp, Academi Amaeth	Amherthnasol	4	Amherthnasol	1.8
Arolwg Busnes Fferm	12	14	8.7	6.2
Gwasanaeth cynghori Cyswllt Ffermio	9	Amherthnasol	6.5	Amherthnasol
Prifysgol Aberystwyth	29	9	21.0	4.0
Academi Amaeth	Amherthnasol	10	Amherthnasol	4.4
Arall	33	20	21.7	8.9
Cyfanswm ymatebion	138	225	11.7	25
Cyfanswm heb ymateb	1042	686	88.4	75

Mae'r rhesymau dros ddechrau meincnodi wedi newid yn sylweddol rhwng 2016 a 2018, gyda llawer mwy o ymgysylltiad gyda'r Academi Amaeth (cynnydd o 100%), Agrisgôp (95%) a Grwpiau Trafod Cyswllt Ffermio (75%). Mae hyn yn debygol o fod o ganlyniad i gynnydd mewn ymwybyddiaeth o'r rhaglenni a gynigir gan Cyswllt Ffermio drwy hysbysebu a chyfathrebu ehangach. Ar y cyfan, roedd mwyafrif yr ymatebion yn nodi bod gweithgaredd meincnodi wedi dechrau o ganlyniad i grwpiau trafod, 33% yn 2016 ac 80% yn 2018. Mae hyn yn dangos llwyddiant trosglwyddo gwybodaeth yn y maes hwn, ac yn awgrymu bod ffermwyr yn ystyried grwpiau trafod yn fuddiol a'u bod yn mabwysiadu arferion newydd o'u herwydd. Mae dysgu gan gyfoedion yn ddull effeithiol iawn o ddysgu/hyfforddi gan fod cyfranogwyr yn aml yn fwy ymatebol i ddysgu gan eraill sydd wedi cael profiad personol o syniad newydd, gan roi ymdeimlad o hygredd y mae modd uniaethu ag ef. Mae dysgu gan gyfoedion hefyd yn galluogi cyfranogwyr i ehangu ar eu rhwydwaith gymdeithasol a ffurfio perthnasau busnes newydd. Mae'r dulliau a'r sgiliau angenrheidiol i redeg fferm lwyddiannus wedi cael eu trosglwyddo o genhedlaeth i genhedlaeth yn draddodiadol, ac ar brydiau o gymydog i gymydog, ac o ganlyniad, mae'r rhan fwyaf o arferion ffermio wedi dechrau fel rhyngweithio rhwng cymheiriaid. Felly, nid yw'n syndod bod y dull hwn o gyfathrebu a hyfforddiant yn fwy effeithiol ymysg ffermwyr (Roling a Wagemakers, 2000). Daeth Faysse et al., (2012) i'r casgliad ei bod hi'n bwysig

hwyluso'r trosglwyddiad gwybodaeth, gan mai dim ond dau o bob tri ffermwr sy'n trafod arferion gyda'i gilydd fel arfer o ddydd i ddydd. Mae canlyniadau'r arolwg yn awgrymu bod Cyswllt Ffermio yn chwarae rôl bwysig drwy ddarparu platfform ar gyfer grwpiau trafod ynghyd â'r adnoddau ariannol i hwyluso dysgu ac arloesedd.

Noder: Mae cyfanswm yr ymatebion yn y fan hon yn amrywio, gan fod rhai ymatebion yn cynnwys sawl gweithgaredd, a chawsant eu cyfrif ar wahân.

CI (c): A ydych chi wedi defnyddio eich ffigyrau meincnodi er mwyn gwneud newidiadau i'r ffordd yr ydych yn rheoli eich fferm dros y ddwy flynedd diwethaf?


Mae ymatebion rhwng 2016 a 2018 yn parhau i fod yn eithaf cyson ar gyfer y cwestiwn yma. Yn 2016, o'r rhai a ymatebodd o'r cwestiwn, dywedodd 44% eu bod yn defnyddio eu ffigyrau meincnodi i wneud newidiadau ar eu ffermydd, a bod 64% ohonynt ddim yn gwneud hynny. Yn 2018, roedd 43% yn defnyddio'r ffigyrau hyn i wneud newidiadau i reolaeth y fferm, a 57% ddim yn gwneud hynny. Gallai'r canlyniad hwn awgrymu bod ffermwyr angen mwy o gefnogaeth wrth ddefnyddio ffigyrau meincnodi i gynhyrchu canlyniadau ystyrlon ac i drosi'r rhain yn newidiadau ar y fferm. Roedd y gyfradd ymateb i'r cwestiwn hwn wedi cynyddu rhwng 2016 a 2018, o 35% i 43%.

Ymateb	Nifer yr ymatebion		Canran yr Ymatebion (%)	
	2016	2018	2016	2018
Do	187	169	44.7	42.9
Naddo	231	225	55.3	57.1
Cyfanswm ymatebion	418	394	35.5	43.3
Cyfanswm heb ymateb	761	519	64.5	56.7

C2: A oes gan eich busnes gynllun olyniaeth (rhywun i gymryd yr awenau pan fyddwch chi'n ymddeol)?

Ymateb	Nifer yr ymatebion		Canran yr Ymatebion (%)	
	2016	2018	2016	2018
Oes	545	461	46.5	51.3
Nac oes	430	388	36.7	43.2
Amherthnasol	198	50	16.8	5.5

Cyfanswm yr ymatebion	1173	899	99.5	98.3
Cyfanswm heb ymateb	6	16	5.0	1.7




Rhwng 2016 a 2018, roedd canran y rhai a oedd wedi nodi bod ganddynt gynllun olyniaeth wedi cynyddu ychydig mewn perthynas â chyfanswm nifer y cyfranogwyr (46% a 51% yn eu trefn). Fodd bynnag, o ran niferoedd unigol, roedd llai o gyfranogwyr yn nodi bod ganddynt gynllun olyniaeth (545 yn 2016 o'i gymharu â 461 yn 2018). Yn yr un modd, roedd ychydig o gynydd yn y nifer o gyfranogwyr a ymatebodd gan nodi nad oedd ganddynt gynllun olyniaeth (36% yn 2016 a 43% yn 2018) ond gwelwyd gostyngiad o ran niferoedd crai (430 yn 2016 a 388 yn 2018). Roedd gostyngiad sylweddol yn nifer yr ymatebwyr a nododd nad oedd y cwestiwn yn berthnasol rhwng 2016 a 2018, o 17% i 5%. Gallai'r canlyniad hwn awgrymu bod ffermwyr yn dod yn fwy ymwybodol o bwysigrwydd gosod cynllun olyniaeth yn ei le. Gall

ymdrin â newid mewn busnes ffermio teuluol fod yn anodd iawn pan fo ffermio'n ffordd o fyw yn ogystal â busnes, a gall trafodaethau'n ymwneud ag olyniaeth fod yn anodd iawn ar brydiau.

Mae'r dyhead i barhau â'r traddodiad teuluol a chyswllt emosiynol y teulu â'r fferm hefyd yn gymhelliant gwerthfawr ac unigryw, yn ogystal â phroffidioldeb sy'n cynyddu'r tebygolrwydd o olyniaeth o fewn y teulu (Kerbler, 2012; Suess-Reyes a Fuetsch, 2016). Mae'n bwysig bod Cyswllt Ffermio yn parhau i gynnal ymgyrch Olyniaeth (gan gynnwys cefnogaeth ar ffurf gweithdai, cymorthfeydd a mentora) er mwyn helpu i gynyddu nifer y busnesau fferm sydd â chynllun olyniaeth effeithiol. Mae goblygiadau peidio â chael cynllun olyniaeth yn glir, o ddirwyn y busnes i ben i golli gwybodaeth/sgiliau ffermio ac arferion traddodiadol (Beattie, 2014). Mae effaith diwylliannol negyddol o golli ffermwyr hefyd yn sylweddol, gan fod y rhan fwyaf o dir Cymru'n cael ei ddiogelu a'i gynnal gan ffermwyr. Byddai hyn yn arwain at golli nwyddau cyhoeddus ac yn peryglu tirweddau eiconig Cymru, sydd â chyswllt cryf ag iaith, diwylliant a threftadaeth Cymru. Gallai'r canlyniadau awgrymu y gallai Cyswllt Ffermio wneud mwy o hysbysebu ynghylch eu Hymgyrch Olyniaeth neu sicrhau bod y gwasanaethau ar gael yn ehangach ledled Cymru.

C3 (a): A ydych chi wedi ymgymryd ag unrhyw un o'r canlynol ar eich fferm dros y ddwy flynedd diwethaf?

Gweithgaredd	Nifer yr ymatebion		Canran yr Ymatebion (%)	
	2016	2018	2016	2018
Profi pridd/Cynllunio rheoli'r pridd a maetholion	843	553	40.0	36.1
Profi Silwair	543	336	25.5	22.0
Monitro iechyd anifeiliaid	608	540	28.5	35.2
Mesur glaswellt	133	102	6.0	6.7
Cynnal un gweithgaredd	322	275	32.2	35.9
Cynnal dau weithgaredd	316	269	31.6	35.1
Cynnal tri gweithgaredd	261	173	26.1	22.6
Cynnal pedwar gweithgaredd	83	147	8.3	19.2
Cyfanswm yr ymatebion	1001	767	85.0	83.8
Cyfanswm heb ymateb	177	148	15.0	16.2



Yn 2016, y gweithgaredd mwyaf poblogaidd gan y cyfranogwyr oedd samplu pridd neu gynllunio rheoli maetholion, gyda 39% yn ymgysylltu gyda'r gweithgaredd. Ddwy flynedd yn ddiweddarach yn 2017, y gweithgaredd mwyaf poblogaidd oedd monitro iechyd anifeiliaid (e.e. samplu gwaed, cyfrif wyau ysgarthol a sgorio cloffni) gyda 35% o'r cyfranogwyr yn ymgysylltu gyda'r gweithgaredd hwn. Ar y cyfan, samplu'r pridd/cynllunio rheoli maetholion a monitro iechyd anifeiliaid sy'n dal i fod fwyaf poblogaidd yn 2016 a 2018. Mesur glaswellt yw'r gweithgaredd lleiaf poblogaidd ymysg cyfranogwyr, gan aros ar lefel 6% o ran ymgysylltiad ar gyfer y cyfnod rhwng 2016 a 2018.

Ceir tueddiad hefyd rhwng 2016 a 2018 yn awgrymu bod llai o bobl wedi cymryd rhan yn y gweithgareddau hyn ar y cyfan, ond mae'n bosibl nad yw hynny'n wir o reidrwydd gan fod maint y sampl (nifer a gymerodd ran yn yr arolwg) yn llai yn 2018 (909) o'i gymharu â 2016 (1179). Felly, ni allwn ddweud yn sicr os oes llai wedi cymryd rhan yn y gweithgareddau hyn mewn gwirionedd, neu a yw'r gwahaniaeth i'w weld o ganlyniad i lai o bobl yn cael eu holi.

Dros y cyfnod rhwng 2016-2018, roedd ymgysylltiad yn dal i fod yn uchel gyda chyfanswm o 85% o'r ymatebwyr wedi ymgysylltu gydag o leiaf un o'r gweithgareddau uchod - gallai hyn awgrymu bod ffermwyr yn cymryd camau ymarferol i wella eu busnesau.

Mae'n bwysig bod negeseuon yn cael eu targedu'n ofalus wrth newid ymddygiad - mae nifer o'r ffermydd yng Nghymru'n dyddynau ac mae'n bosibl na fydd arloesedd neu arfer dda ar ffermydd mawr yn addas. Mae hefyd yn bwysig bod cymhelliant ar gyfer newid ymddygiad a bod gwerth y newidiadau hyn yn glir - mae manteision mesuriadau megis samplu pridd a silwair a gwella iechyd anifeiliaid yn glir, gan gynnig cymhelliant clir i ffermwyr ymgysylltu (Rose et al., 2018).

C3 (b): Os mai “ydym” oedd ateb ar gyfer unrhyw un o’r uchod, a ydych wedi defnyddio’r wybodaeth er mwyn gwneud newidiadau i’r modd yr ydych yn rheoli eich fferm dros y ddwy flynedd diwethaf?

O’r rhai a gwblhaodd waith samplu/dadansoddi, roedd y mwyafrif yn defnyddio’r canlyniadau hyn i newid arferion ffermio (87% yn 2016 ac 80% yn 2018). Serch hynny, ceir lleihad yn nifer y rhai a oedd yn gwneud defnydd o’r canlyniadau rhwng 2016 a 2018. Mae’n bosibl bod nifer o resymau pam na fyddai ffermwyr yn gwneud newidiadau, er enghraifft, os nad oedd angen gwneud newidiadau, os nad oedd cyfalaf ar gael i hwyluso newid neu oherwydd bod angen cefnogaeth ychwanegol i ddehongli’r canlyniadau.

Ymateb	Nifer yr ymatebion		Canran yr Ymatebion (%)	
	2016	2018	2016	2018
Do	887	633	87.9	80.6
Naddo	122	152	12.1	19.4
Cyfanswm ymatebion	1009	785	85.5	85.8
Cyfanswm heb ymateb	171	129	14.5	14.1

C4: A oes gennych chi uchelgais glir ar gyfer eich busnes dros y 3-5 mlynedd nesaf?

Yn 2016, roedd gan ychydig dros hanner (53%) uchelgais glir ar gyfer eu busnes dros y 3-5 mlynedd nesaf, ac yn 2018, cynyddodd y gyfran i 67%. Fel y nodwyd eisoes, holwyd llai o bobl yng nghanol 2018, gan olygu bod canlyniadau cymesurol yn wahanol i’r data crai. Serch hynny, ceir cynnydd clir yn nifer y cyfranogwyr gydag uchelgais glir a llai heb uchelgais glir o gwbl (46% a 32% yn eu trefn).

Ymateb	Nifer yr ymatebion		Canran yr Ymatebion (%)	
	2016	2018	2016	2018
Oes	631	611	53.5	67.1
Nac oes	549	297	46.5	32.9
Cyfanswm yr ymatebion	1179	911	100	99.5
Cyfanswm heb ymateb	0	3	Amherthnasol	0.5

C5: A oes gennych gynllun busnes ysgrifenedig sy'n amlinellu sut y byddwch yn gweithredu eich uchelgais?


Yn dilyn ymlaen o gwestiwn 4, mae cyfran y cyfranogwyr gyda chynllun busnes ysgrifenedig yn isel iawn. Yn 2016, dim ond 10% o'r rhai a holwyd oedd â chynllun busnes ysgrifenedig. Mae hyn yn gyfwerth â 29% o'r bobl a atebodd "oes" i'r cwestiwn o fod ag uchelgais glir ar gyfer eu busnes yng nghwestiwn 4. Yn yr un modd, nododd 81% o'r cyfranogwyr nad oedd ganddynt gynllun busnes ysgrifenedig. Mae hyn yn gyfwerth â 26% o'r bobl a atebodd "oes" i'r cwestiwn o fod ag uchelgais glir ar gyfer eu busnes yng nghwestiwn 4.

Mae hyn yn awgrymu efallai bod angen hyrwyddo a chodi ymwybyddiaeth bellach o Wasanaeth Cyngori Cyswllt Ffermio. Ar hyn o bryd, mae Cyswllt Ffermio yn cynnig cyllid o hyd at 80% tuag at gostau cynghorydd busnes ar gyfer cynllunio a chynghor, felly gallai hyrwyddo'r gwasanaeth hwn ymhellach helpu i annog pobl i lunio strategaethau busnes ysgrifenedig. Er mwyn cyflawni'r nodau busnes a chadw rheolaeth, mae'n bwysig gwneud cofnod o dargedau a chmau ymarferol mewn cynllun busnes. Gallai hyn fod yn rhywbeth sydd allan o afael i ffermwyr yn ariannol neu'n ddaearyddol, yn enwedig y rhai hynny sy'n ffermio mewn ffordd fwy traddodiadol. Mae ffermwyr traddodiadol fel arfer yn dysgu ac yn mabwysiadu arferion o'r genhedlaeth flaenorol, ac felly nid ydynt yn dueddol o ofyn am gyngor o'r tu allan (Rose et al., 2018).

Ymateb	Nifer yr ymatebion		Canran yr Ymatebion (%)	
	2016	2018	2016	2018
Oes	188	164	16.6	18.0
Nac oes	919	749	82.9	82.0
Cyfanswm ymatebion	1109	913	94.0	99.8
Cyfanswm heb ymateb	73	3	6.0	0.2

C6 (a): A ydych chi'n defnyddio meddalwedd electronig ar hyn o bryd i reoli perfformiad eich diadell/buches?

Ateb	Nifer yr ymatebion		Canran yr Ymatebion (%)	
	2016	2018	2016	2018
Ydw	385	280	32.8	31.0
Nac ydw	791	623	67.2	69.0
Cyfanswm ymatebion	1176	903	99.7	98.7
Cyfanswm heb ymateb	5	12	0.3	1.3



Pan holwyd yr ymatebwyr am eu defnydd o system adnabod electronig, ychydig iawn o amrywiaeth gyfrannol a welwyd rhwng 2016 a 2018 (32% a 31% yn eu trefn). Mae'n syndod o bosibl nad yw'r defnydd o dechnoleg EID newydd wedi lledaenu ar draws Cymru dros y cyfnod o ddwy flynedd.

Mae defnyddio cyfrifiaduron ac EID yn dechnoleg gymharol newydd, yn enwedig mewn systemau ffermio traddodiadol yng Nghymru, ac mae'n bosibl nad ydynt yn angenrheidiol ar ffermydd bychain, fel sydd ar gael ledled Cymru. Gallai darparu cymorth a chynghor i'r rhai sydd â diddordeb a hwyluso trafodaeth gyda'r rhai sydd eisoes yn defnyddio'r dechnoleg fod yn ddefnyddiol o ran rhannu gwybodaeth. Mae ffermydd arddangos hefyd yn adnodd defnyddiol er mwyn rhannu gwybodaeth, gan fod gweld y system yn cael ei brofi mewn system debyg yn gallu cymell ac ennyn diddordeb ymysg defnyddwyr newydd (Rose et al., 2018). Mae'n bwysig ystyried hefyd bod EID yn dechnoleg newydd ac felly'n gallu bod yn ddrud yn y tymor byr ar gyfer ffermwyr, mae hyn yn rhwystr sylweddol rhag newid ymddygiad, felly mae'n rhaid dangos manteision cost clir yn yr hirdymor.

C6 (b): Os ydych, rhowch fanylion o'r math o system yr ydych yn ei weithredu?:

System EID	Nifer y defnyddwyr		Canran y defnyddwyr (%)	
	2016	2018	2016	2018
NMR (Cofnodion Llaeth Cenedlaethol)	10	3	3.2	1.1
Shearwell	42	38	13.3	13.7
Cloriannau Pwyso	5	9	1.6	3.2
Uniform Agri	2	9	0.6	3.2

O'r rhai a	FarmIt3000	10	5	3.2	1.8	oedd yn
	Allflex	10	3	3.2	1.1	
	Interherd	8	4	2.5	1.4	
	Boarder software	7	2	2.2	0.7	
	AgriData	18	15	5.7	5.4	
	FarmIT	2	4	0.6	1.4	
	FarmPlan	4	7	1.3	2.5	
	Dadansoddiad llaeth	3	4	0.9	1.4	
	TruTest	2	6	0.6	2.2	
	Ffon/ffon EID amhenodol	1	16	0.3	5.8	
	Tag / darllenydd amhenodol	68	13	21.5	4.7	
	Darllenydd EID amhenodol	77	101	24.3	36.3	
	Arall	36	50	11.4	18.0	
	Cyfanswm heb ymateb	864	638	73.2	69.7	
	Cyfanswm yr ymatebion	315	277	26.8	30.3	

defnyddio system EID, nid oedd y mwyafrif wedi manylu ynglŷn â'r brand, ond o'r rhai a ymatebodd, Shearwell oedd y brand mwyaf poblogaidd yn 2016 ac yn 2018 (13% yn 2016 ac yn 2018). Yr ail raglen gyfrifiadurol fwyaf poblogaidd yn 2016 oedd AgriData, gyda 6% o'r ymatebwyr yn defnyddio'r system honno. Yn 2018, roedd y tueddiad yr un fath, gan fod 5% o'r ymatebwyr hefyd yn defnyddio'r system hon. Mae'r defnydd o gloriannau hefyd wedi cynyddu rhwng 2016 a 2018. Roedd cyfanswm nifer yr ymatebion i'r cwestiwn hwn yn llai na'r rhai a atebodd "ydw" i ddefnyddio system EID, gan awgrymu nad oedd yr ymatebwyr hyn yn gwybod pa fath o system EID yr oeddent yn ei ddefnyddio neu'n methu â darparu'r wybodaeth honno mewn manylder pellach, neu heb ymgysylltu â'r cwestiwn.

C7: 2016: A ydych chi neu eraill sy'n gweithio ar y daliad yn bwriadu ymgymryd â hyfforddiant achrededig drwy raglen Cyswllt Ffermio dros y 2 flynedd nesaf?

2018: A ydych chi'n bwriadu cwblhau unrhyw gyrsiau hyfforddiant achrededig dros y 12 mis nesaf?

Roedd y cwestiwn a roddwyd yn y ddau arolwg ychydig yn wahanol rhwng 2016 a 2018, ond gellir gwneud rhai cymariaethau rhwng y data. Yn 2016, gofynnwyd i gyfranogwyr yn benodol ynglŷn â chymryd rhan mewn hyfforddiant a gynigiwyd gan Cyswllt Ffermio yn unig dros y ddwy flynedd nesaf a chafwyd cyfran ymateb o 99%. Yn 2016, roedd 85% o'r cyfranogwyr yn bwriadu ymgysylltu gyda hyfforddiant a ddarparwyd gan Cyswllt Ffermio. Mae'n gadarnhaol gweld ffermwyr yn ymgysylltu gyda Cyswllt Ffermio ac yn gwneud defnydd o'r hyfforddiant a ddarperir. Roedd y canlyniadau'n wahanol yn 2018, gyda 60% yn bwriadu cymryd rhan mewn hyfforddiant achrededig dros y flwyddyn nesaf. Gallai'r gostyngiad hwn mewn niferoedd fod o ganlyniad i'r amserlen a roddwyd ar y cwestiwn yn 2018 (blwyddyn o'i gymharu â dwy flynedd)

neu oherwydd ystod o ffactorau eraill megis diffyg amser, incwm, mynediad ayb. Fodd bynnag, mae hyn yn dangos lle i wella o ran ymgysylltiad ffermwyr, p'un a yw hynny'n golygu gwahanol ddulliau cyfathrebu (megis cyfathrebu drwy'r post gyda dewis i ddefnyddio dulliau heb bapur), hyblygrwydd o ran mynediad (e.e. gweithio o amgylch yr adegau prysuraf o'r dydd i ffermwyr) a lleoliad daearyddol (darparu gweithdai a hyfforddiant mewn amrywiaeth o leoliadau hygrych).

Ymateb	Nifer yr ymatebion		Canran yr Ymatebion (%)	
	2016	2018	2016	2018
Ydw	1000	551	85.0	60.8
Nac ydw	177	353	15.0	39.2
Cyfanswm yr ymatebion	1177	905	99.8	98.9
Cyfanswm heb ymateb	2	10	0.2	1.1

C8 (a): 2016: A oes gennych chi goetir ar eich fferm?

2018: A ydych wedi ystyried plannu coed ar eich fferm?

Fel y nodwyd eisoes, roedd y cwestiwn hwn yn wahanol rhwng 2016 a 2018, a'r tro hwn yn fwy arwyddocaol, felly ni ellir cymharu.

Ateb	Nifer yr ymatebion		Canran yr Ymatebion (%)	
	2016	2018	2016	2018
Oes	729	432	61.8	47.6
Nac oes	450	475	38.2	52.4
Cyfanswm ymatebion	1179	907	100	99.1
Cyfanswm heb ymateb	0	9	Amherthnasol	0.9

Roedd Cwestiwn 8 yn 2016 yn gofyn a oedd gan gyfranogwyr unrhyw goetir ar eu fferm ar hyn o bryd, ac atebodd y mwyafrif (62%) yn gadarnhaol. Fodd bynnag, yn 2018, holwyd cyfranogwyr a oeddent wedi ystyried plannu coed ar eu fferm gan arwain at lai yn ateb yn gadarnhaol (47%). Mae'n bosibl y gellid dod o hyd i'r rheswm dros y gostyngiad yn nifer yr ymatebion cadarnhaol o fewn cwestiwn 2016, gan fod nifer fawr o ffermwyr eisoes yn berchen ar goetir ar eu ffermydd ac felly mae'n bosibl nad oes ganddynt ddiddordeb mewn plannu rhagor o goed.

C8 (b): 2016: Os felly, a ydych chi'n gwneud unrhyw un o'r canlynol?

Ymateb	Nifer yr ymatebion	Canran yr Ymatebion (%)
--------	--------------------	-------------------------

Rheoli eich coetiroedd ar y fferm	278	44.0
Defnyddio unrhyw adnoddau pren	41	6.5
Y ddau	27	4.3
Dim	285	45.1
Cyfanswm ymatebion	631	53.5
Cyfanswm heb ymateb	548	46.5

Mae'r cwestiwn ychwanegol yn arolwg 2016 yn holi a yw cyfranogwyr wedi gwneud unrhyw ddefnydd o'u coetir fferm. Rhwng cwestiwn 8 (a) a 8 (b), ni wnaeth oddeutu 100 o gyfranogwyr a oedd wedi ateb yn gadarnhaol bod coetir ar eu fferm ddarparu ateb i'r cwestiwn hwn. Gallai hyn awgrymu bod cyfran o'r rhai a ddewisodd i beidio ag ateb yn meddu ar goetir, ond nad ydynt yn gwneud defnydd ohono. Yn gyffredinol, atebodd 44% yn nodi eu bod yn rheoli eu coetir, ond dim ond 10% oedd yn defnyddio coed o'u coetiroedd. Gallai hyn awgrymu y dylai Cyswllt Ffermio barhau i gynnig gwybodaeth bellach i ffermwyr i'w hannog i ddefnyddio eu coed mewn modd cynaliadwy. Byddai hyn yn ei dro yn trosi'n fantais o ran costau, a gallai annog eraill i ystyried plannu coed ar eu tir.

Q9: Heblaw TB buchol, beth yw'r broblem ieched fwyaf ar hyn o bryd sy'n berthnasol i'ch daliad?

Problem Ieched	Nifer yr ymatebion		Canran yr Ymatebion (%)	
	2016	2018	2016	2018
Cloffni	158	102	19.0	12.8
Parasitiaid (gan gynnwys llyngyr yr iau ac ymwrthedd)	136	137	16.3	17.2
Clwy'r traed	90	79	10.8	9.9
Niwmonia	57	56	6.8	7.0
BVD (Dolur Rhydd Feirysol Buchol)	55	53	6.6	6.7
Clefyd Johne	55	51	6.6	6.4
Clafr defaid	43	81	5.1	10.2
Erthylu	44	16	5.2	2.0
Mastitis	31	23	3.7	2.9
Dermatitis Digidol (gan gynnwys Dermatitis Digidol Defeidiol Heintus (Codd))	30	29	3.6	3.6
Ffrwythlondeb	25	25	3.0	3.1

IBR (Rhinotracheitis Heintus mewn gwartheg)	21	12	2.5	1.5
Trogod a llau	19	17	2.3	2.1
Cynrhon	16	10	1.9	1.3
Tocsoplasmosis	10	3	1.2	0.4
ORFF (Parapox/clwyfau o amgylch y geg)	7	4	0.8	0.5
Llyngyr	6	5	0.7	0.6
Leptosbirosis	4	9	0.5	1.1
Pasteurella	0	6	0	0.8
Ffliw adar	0	5	0	0.6
Arall	30	37	3.6	4.6
Cyfanswm yr ymatebion	835	794	70.8	86.8
Cyfanswm heb ymateb	345	121	29.2	13.2

Yn arolwg 2016, prif bryder y ffermwyr a holwyd oedd cloffni cyffredinol mewn defaid a gwartheg, a oedd yn gyfrifol am 19% o'r ymatebion; yn ail ar y rhestr oedd parasitiaid, gan gynnwys llyngyr yr iau ac ymwrthedd anthelminitig, sef 16% o'r ymatebion. Yn arolwg 2018, gwyrddrowyd y duedd hon gyda pharasitiaid yn gyfrifol am 17% o'r ymatebion, a chloffni'n gyfrifol am 13%. Mynegodd cyfranogwyr hefyd bryder sylweddol yn 2016 a 2018 ynglŷn â chlwy'r traed mewn defaid (11% a 10% yn eu trefn), gyda gostyngiad bach rhwng y ddau arolwg.

Mae Cyswllt Ffermio yn cynnig llawer o wybodaeth a hyfforddiant ar barasitiaid (gastroberfeddol, llyngyr yr iau neu lyngyr yr ysgyfaint) sydd wedi helpu i gynyddu ymwybyddiaeth o'r broblem yn ogystal ag ymwrthedd. Yn arolwg 2016, soniodd 16 ymatebwr am ymwrthedd parasitiaid, a soniodd 13 ymatebwr am yr un peth yn 2018. Mae cyfrif wyau ysgarthol drwy Cyswllt Ffermio yn ffordd effeithiol o fynd i'r afael â baich llyngyr mewn da byw, gan leihau'r risg o ymwrthedd i gyffuriau a chynyddu ymwybyddiaeth ymysg ffermwyr ar yr un pryd (McKenna, 1981). Mae'n bwysig bod ffermwyr yn ymwybodol o'r gwasanaeth hwn yn ogystal â dulliau o leihau'r risg drwy reoli'r tir a bioddiogelwch, e.e. mae tir sy'n draenio'n dda yn strategaeth allweddol ar gyfer lleihau haint gyda llyngyr yr iau (mae dŵr sy'n sefyll yn cynnig amgylchedd delfrydol i falwod llaid) (Bowles, 2018). Gallai sefydlu/defnyddio grwpiau trafod lleol (ar sail ddaearyddol) fod yn ddefnyddiol yn yr achos hwn, gan fod dysgu gan gymheiriaid, fel y soniwyd eisoes, yn ffordd wych o ddarparu gwybodaeth, lle gall cyfarwyddyd gan filfeddygon a gwyddonwyr gynnwys gormod o wybodaeth ar adegau, a bod yn llethol.

Yn 2016, dim ond 5% o'r ymatebwyr nododd clafr defaid fel pryder, ond yn 2018, mae'r ffigwr yma wedi dyblu i 10% o ymatebwyr. Mae clafr defaid (psoroptic mange) yn glefyd heintus iawn a achosir gan widdon, a gall oroesi oddi ar y ddafad am hyd at 17 diwrnod (Chivers et al.,

2018). Ar ôl ei ddadredeiddio yn 1992, gwelwyd cynnydd dramatig yn nifer yr achosion o glafr i fwy na 7,000 o achosion yn 2004, ac o ganlyniad, mae clafr defaid yn glefyd economaidd sylweddol, sy'n costio hyd at £18 y ddafrad i'w drin, ac yn costio tua £8 miliwn y flwyddyn i'r diwydiant defaid yn y DU (Undeb Amaethwyr Cymru, 2014 ; Bisdorff *et al.*, 2006). Cafodd clafr defaid ei wneud yn flaenoriaeth yng nghynllun Gweithredu Fframwaith Iechyd a Lles Anifeiliaid Cymru yn 2016/17 gyda nifer o gwmnïau a chyrff, gan gynnwys Cyswllt Ffermio, yn rhoi cyhoeddusrwydd i'r broblem ac yn cynnig gwybodaeth a chefnogaeth i ffermwyr (Llywodraeth Cymru, 2017). Mae'n bosibl bod grwpiau trafod hefyd yn ffactor sy'n cyfrannu at gynnydd mewn ymwybyddiaeth - wrth i ffermwyr ryngweithio gydag eraill o'u hardal leol, mae eu hymwybyddiaeth o ffermydd cyfagos yn cynyddu. Gallai gweld effaith clafr defaid ar ffermydd cyfagos ynghyd â rhywfaint o bwysau gan gyfoedion (yn fwriadol neu'n anfwriadol) fod yn ddull effeithiol er mwyn newid ymddygiad.

Gellir gweld mwy o ymwybyddiaeth yn yr ymatebion i'r cwestiwn hwn, gyda mwy o ffermwyr yn fwy ymwybodol o'r clefyd a'r mesurau bioddiogelwch gofynnol i atal ei ledaeniad. Bu adroddiad gan Chivers *et al.*, 2018 yn holi aelodau o'r grŵp cydweithredol WLPB ac wedi gweld nad oedd gweithdrefn cwarantîn yn cael ei defnyddio ar gyfer stoc newydd ar 29% o ffermydd, ac felly, gallai hyn fod yn bwnc y gallai Cyswllt Ffermio gynnig cyngor ychwanegol a gwybodaeth yn ei gylch yn ogystal â chyhoeddi pwysigrwydd gweithdrefnau cwarantîn.

Mae newidiadau nodedig eraill yn cynnwys pryder ynglŷn â Ffliw Adar yn arolwg 2018, a allai fod yn gysylltiedig â'r achosion o ffliw adar ledled y wlad yn 2017/18 (Llywodraeth y DU, 2018). Gwelwyd gostyngiad o bron i 50% mewn pryderon ynghylch erthylu rhwng arolygon 2016 a 2018, sy'n cael ei gefnogi gan ddata a gasglwyd gan rwydwaith ddiagnostig filfeddygol y DU sy'n dangos bod nifer yr achosion gyda diagnosis erthylu yng Nghymru wedi lleihau ar y cyfan (gweler y tabl isod).

Rheswm dros erthylu	Diagnosis a gofnodwyd yng Nghymru	
	2016	2018
Ensöotig	108	59
Tocsoplasma	55	35
Campylobacter	34	22
Listeria	15	6
Salmonela	18	5
Heb ei restru	6	11

Tabl 1: Data Rhwydwaith Ddiagnostig Filfeddygol y DU yn ymwneud â'r pum prif achos dros erthylu mewn defaid yng Nghymru yn 2016 a 2018.

Gellir hefyd gweld pryder ynglŷn â Pasteurellosis (cynnydd o 57%) sy'n cyd-fynd ag Adroddiad Iechyd a Lles Defaid ar gyfer y DU yn 2016/17 a 2018/19 a oedd wedi nodi lleihad o fwy na 50% o achosion Pasteurellosis mewn defaid o bob oedran (SHAWG, 2016; 2018).


Gwelwyd cysondeb o ran niwmonia mewn lloi ac ŵyn, a oedd yn cael ei nodi'n gyson yn 2016 a 2018 (7% ar gyfer y ddwy flynedd), yn ogystal â BVD, a oedd yn gyfrifol am 6% o ymatebion.

C10 (a): Ar raddfa o 1-6, pa mor bwysig yw rheoli'r canlynol i'ch busnes: (1 yn golygu nad yw'n bwysig o gwbl a 6 yn golygu pwysig iawn)?


Noder: Mae'n bwysig cofnodi tueddiadau o'r ystod data cyffredinol. Bydd yr ymatebion i'r set yma o gwestiynau'n cael eu cyflwyno mewn tablau ar wahân.

Pan holwyd cyfranogwyr pa mor bwysig oedd bioddiogelwch a chynefinoedd i'w busnesau, roedd ymatebion i'r ddau arolwg yn ymgasglu o amgylch canol y raddfa (yn 2016, roedd 51% o'r ymatebion yn nodi dau, ac yn 2018, roedd 76% o'r ymatebion rhwng tri a phump ar y raddfa). Roedd dosbarthiad normal yn gwyro ychydig tuag at ochr uchaf i'w weld yn 2018, gan awgrymu er nad yw rheoli bioamrywiaeth a chynefinoedd ymysg y materion pwysicaf i'r cyfranogwyr, mae'n dal i beri pryder. Gellir dweud yr un peth o ymatebion 2016, lle roedd 29% o ymatebwyr wedi dewis tri o'i gymharu â 19% yn dewis un ar y raddfa.

Sgôr	Nifer yr ymatebion	Canran yr Ymatebion (%)
1	28	3.1
2	40	4.4
3	190	21.0
4	240	26.6
5	258	28.6
6	147	16.3
Cyfanswm ymatebion	903	98.7
Cyfanswm heb ymateb	12	1.3




Sgôr	Nifer yr ymatebion	Canran yr Ymatebion (%)
1	235	20.0
2	602	51.2
3	342	29.0
Cyfanswm ymatebion	1176	99.7
Cyfanswm heb ymateb	3	0.3




C10 (b): Ar raddfa o 1-6, pa mor bwysig yw rheoli ansawdd pridd i'ch busnes?

Gellir gweld patrwm llinellol yn y ddau arolwg mewn ymateb i'r cwestiwn yn gofyn am bwysigrwydd rheoli ansawdd pridd. Roedd y rhan fwyaf (90%) o'r ymatebion yn 2018 yn nodi pump neu chwech ar y raddfa ac yn 2016, roedd 73% wedi dewis tri ar frig y raddfa. Mae hyn yn awgrymu bod rheoli priddoedd yn bwysig i'r ffermwyr a holwyd, yn debygol o fod oherwydd effaith uniongyrchol ansawdd y pridd ar gynhyrchiant. Mae hyn hefyd yn cael ei adlewyrchu yng nghwestiwn 3(a) lle mai samplu'r pridd a chynllunio rheoli maetholion oedd y gweithgaredd mwyaf poblogaidd yn ystod 2016 a 2018 ymysg y rhai a holwyd. Mae hyn yn awgrymu bod cyfranogwyr yn ymwybodol o bwysigrwydd ansawdd pridd ac yn cymryd camau ymarferol i wella eu priddoedd.

Sgôr	Nifer yr ymatebion	Canran yr Ymatebion (%)
1	2	0.2
2	5	0.5
3	27	3.0
4	65	7.2
5	305	33.9
6	496	55.1
Cyfanswm ymatebion	900	98.4
Cyfanswm heb ymateb	15	0.6



Sgôr	Nifer yr ymatebion	Canran yr Ymatebion (%)
1	41	3.5
2	276	23.4
3	863	73.3
Cyfanswm ymatebion	1177	99.8
Cyfanswm heb ymateb	2	0.2



C10 (c): Ar raddfa o 1-6, pa mor bwysig yw rheoli ansawdd dŵr i'ch busnes?

Gellir gweld tueddiad tebyg o ran rheoli ansawdd dŵr. Yn 2018, roedd 87% o ymatebwyr yn nodi bod rheoli ansawdd dŵr ar begwn uchaf y raddfa bwysigrwydd (pump a chwech). Yn arolwg 2016, dewisodd 62% o'r ymatebwyr rif 3 (ar raddfa o 1-3 lle mai 3 yw'r pwysicaf) pan holwyd ynglŷn ag ansawdd dŵr. Mae hyn yn awgrymu bod cyfranogwyr yn ymwybodol bod ansawdd dŵr yn broblem yng Nghymru, yn enwedig o ran llygredd o wrtaith a gwastraff (slyri). Gallai cynyddu ymwybyddiaeth o fentrau i gynnal/gwella ansawdd dŵr drwy'r gwasanaeth Cynllun Rheoli Cynaliadwy a chynghor ynglŷn â rheoli slyri/gwastraff drwy Cyswllt Ffermio helpu i ddiogelu a gwella ffynonellau dŵr ffermwyr yng Nghymru.

Sgôr	Nifer yr ymatebion	Canran yr Ymatebion (%)
1	5	0.6
2	4	0.4
3	24	2.7
4	80	8.9

5	389	43.3
6	396	44.1
Cyfanswm ymatebion	898	98.1
Cyfanswm heb ymateb	17	1.9

Sgôr	Nifer yr ymatebion	Canran yr Ymatebion (%)
1	106	9.0
2	335	28.5
3	736	62.5
Cyfanswm ymatebion	1177	99.8
Cyfanswm heb ymateb	2	0.2

C10 (d): Ar raddfa o 1-6, pa mor bwysig yw rheoli'r tir i'ch busnes?

Sgôr	Nifer yr ymatebion	Canran yr Ymatebion (%)
1	2	0.2
2	18	2.0
3	50	5.6
4	185	20.7
5	462	51.7
6	176	19.7
Cyfanswm ymatebion	893	97.6
Cyfanswm heb ymateb	22	2.4

Sgôr	Nifer yr ymatebion	Canran yr Ymatebion (%)
1	147	12.6
2	509	43.6
3	512	43.9

Cyfanswm ymatebion	1167	99.0
Cyfanswm heb ymateb	12	1.0

Roedd tuedd y data ar gyfer y cwestiwn hwn yn dangos fod pwysigrwydd tirweddau'n amwrywio ychydig rhwng 2016 a 2018. Yn 2016, roedd 43% o'r ymatebion yn nodi pwysigrwydd o dri ar y raddfa, ac yna yn 2018, roedd mwyafrif yr ymatebion (52%) wedi dewis pwysigrwydd o bump. Er nad oedd rheoli'r tirwedd wedi cael sgôr mor uchel â phridd, er enghraifft, ymddengys ei fod yn bwysig ar y cyfan. Gallai hyn awgrymu bod ffermwyr Cymru yn ymwybodol o'r tirweddau sydd o'u cwmpas, yn enwedig o ran traddodiad a diwylliant. Mae tirweddau'n adnodd naturiol sylweddol ac mae'n bwysig i ffermwyr fod yn ymwybodol o'r cyfleoedd ariannu ar ôl gadael yr UE i gynnal y tirweddau eiconig sy'n nodweddiadol yng Nghymru (The Heritage Alliance, 2017). Mae hyn yn cynnig cymhelliant allweddol ar gyfer ffermwyr yn ogystal â phwysigrwydd personol y tirweddau hyn.

C10 (e): Ar raddfa o 1-6, pa mor bwysig yw rheoli dŵr i'ch busnes:

Sgôr	Nifer yr ymatebion	Canran yr ymatebion (%)
1	29	3.2
2	22	2.5
3	36	4.0
4	123	13.8
5	493	55.2
6	188	21.1
Cyfanswm ymatebion	893	97.6
Cyfanswm heb ymateb	22	2.4

Sgôr	Nifer yr ymatebion	Canran yr Ymatebion (%)
1	679	59.0
2	247	21.5

3	224	19.5
Cyfanswm ymatebion	1150	97.5
Cyfanswm heb ymateb	29	2.5

Roedd pwysigrwydd rheoli dŵr i'r cyfranogwyr yn arolwg 2016 yn isel, gan fod 60% o'r ymatebwyr wedi dewis sgôr o un. Fodd bynnag, mae'r duedd hon yn newid yn 2018 lle'r oedd 90% yn nodi sgôr pwysigrwydd o 4 neu uwch. Mae'r ffactor yma wedi dod yn fwy o bryder i ffermwyr, o bosibl o ganlyniad i'r sychder a welwyd yn ystod haf 2018. Mae'r Swyddfa Dywydd (2018) wedi cyhoeddi ystadegau sy'n dangos bod haf 2018 yng Nghymru wedi bod yn gyson boethach na'r cyfartaledd gyda 36% yn llai o lawiad. Achosodd hyn i nifer o ffynonellau dŵr naturiol sychu, gwahardd defnyddio pibelli dŵr, tanau gwyllt, pryderon iechyd ar gyfer da byw, llifogydd a cholli elw o gnydau, ymysg problemau eraill. Mae sgil effeithiau'r cyfnod sych yn dal i'w teimlo, gan fod ffermwyr yn wynebu prinder porthiant (ar ôl gorfod porthi da byw ynghynt i wneud iawn am y diffyg porfeydd) a'r silwair a'r gwair o ansawdd is o ganlyniad i'r amodau poeth a sych yn ystod y cynhaeaf. Mae sychder yn broblem brin iawn yng Nghymru, gan olygu mai ychydig iawn o strategaethau sydd mewn lle i reoli dŵr dan yr amgylchiadau hyn.

C10 (f): Ar raddfa o 1-6, pa mor bwysig yw rheoli ansawdd aer i'ch busnes?

Sgôr	Nifer yr ymatebion	Canran yr Ymatebion (%)
1	7	0.8
2	14	1.6
3	46	5.1
4	168	18.7
5	501	55.7
6	162	18.0
Cyfanswm ymatebion	899	98.3
Cyfanswm heb ymateb	16	1.7

Sgôr	Nifer yr ymatebion	Canran yr Ymatebion (%)
1	441	37.8
2	404	34.6

3	324	27.7
Cyfanswm ymatebion	1168	99.1
Cyfanswm heb ymateb	11	0.9

Gellir gweld tuedd debyg ar gyfer ansawdd aer, gan fod 38% o'r cyfranogwyr wedi rhoi sgôr pwysigrwydd o un i ansawdd yr aer yn 2016. Yna, yn 2018, roedd 56% o'r cyfranogwyr wedi dewis pump ar y raddfa bwysigrwydd. Efallai bod y canlyniad yma'n syndod gan fod ansawdd yr aer yn ardaloedd gwledig Cymru'n dda ar y cyfan, bron byth yn codi uwchben sgôr o ddau o'i gymharu â'r mynegai ansawdd aer (Llywodraeth Cymru). Fodd bynnag, mewn dinasoedd mawr yn ne Cymru megis Abertawe a Chaerdydd, gall y sgôr ansawdd aer amrywio rhwng pedwar a saith ar y mynegai, gan ddangos lefelau uwch o lygredd (Llywodraeth Cymru, 2019). Yn 2018, bu sawl ymgyrch yn galw am gynlluniau cryfach i wella ansawdd aer yng Nghymru, yn ogystal â gweithred gan Lywodraeth Cymru, e.e. y cyfyngiad cyflymder o 50mya a roddwyd ar nifer o briffyrdd a thraffyrdd (BBC, 2018). Mae'n bosibl bod canlyniadau'r arolwg hwn yn awgrymu cynnydd mewn ymwybyddiaeth o ansawdd aer ymysg ffermwyr yng Nghymru.

C10 (g): Ar raddfa o 1-6, pa mor bwysig yw rheoli gwastraff i'ch busnes:

Sgôr	Nifer yr ymatebion	Canran yr Ymatebion (%)
1	4	0.5
2	12	1.3
3	25	2.8
4	58	6.5
5	413	46.0
6	384	42.8
Cyfanswm ymatebion	897	98.0
Cyfanswm heb ymateb	18	2.0

Sgôr	Nifer yr ymatebion	Canran yr Ymatebion (%)
1	146	12.4

2	381	32.3
3	654	55.5
Cyfanswm ymatebion	1178	99.9
Cyfanswm heb ymateb	1	0.1

Mae rheoli gwastraff yn eithaf pwysig i gyfranogwyr, yn enwedig yn 2016 pan ddewisodd 55% o'r cyfranogwyr lefel bwysigrwydd o dri. Yn 2018, roedd pwysigrwydd rheoli gwastraff ymysg y rhai a holwyd yn uwch, gan fod 89% o'r ymatebwyr wedi dewis pump a chwech ar y raddfa. Gallai hyn awgrymu mwy o ymwybyddiaeth o reoli gwastraff ymysg ffermwyr a gymerodd ran. Gwelwyd cynnydd sylweddol yn yr ymgyrch fyd-eang i leihau llygredd plastig yn ystod canol i ddiwedd 2018, gan annog ffermwyr i feddwl am eu strategaethau ailgylchu a rheoli gwastraff eu hunain o bosibl, yn ogystal â phwysau cynyddol gan brynwyr sy'n dymuno diogelu'r amgylchedd.

Mae lefel dealltwriaeth a mewnwelediad ffermwyr ar gyfer pob pwnc yng nghwestiwn 10 yn dal i fod yn aneglur, gan fod y cwestiynau'n llwyddo i feintoli pa mor bwysig yw nodwedd benodol i fusnes fferm, ond nid yw'n holi a yw'r ffermwr yn deall sut i fesur ansawdd y nodwedd honno. Felly, mae'r atebion uchod yn ddefnyddiol o safbwynt creu polisi, ond o ran cyfnewid gwybodaeth, mae angen mesur lle mae'r bwlch gwybodaeth mewn gwirionedd.

11. Pa gefnogaeth arall hoffech chi ei dderbyn gan Cyswllt Ffermio i wella effeithlonrwydd a chynhyrchiant eich busnes?

2016:

Adborth	Nifer yr ymatebion	Canran yr Ymatebion (%)
Dim / aros fel y mae / adborth cadarnhaol	273	32.4
Mwy o grantiau	78	8.9
Hyfforddiant TG a chyfrifiaduron	55	6.5
Mynediad rhwyddach i grantiau a hyfforddiant	51	6.0
Gwell cyfathrebu/hysbysebu	47	5.6
Cefnogaeth ar gyfer ffermwyr newydd neu ifanc	39	4.6
Cyllid ar gyfer prawf trelar	33	3.9
Hyfforddiant & gwybodaeth am iechyd anifeiliaid	28	3.3
Cyllid a chefnogaeth gydag arallgyfeirio	28	3.3
Mwy o amrywiaeth o gyrsiau	27	3.2

Mwy o ffermydd arddangos	26	3.1
Mwy o gymorth gyda chynllunio busnes	25	3.0
Grantiau/gwybodaeth ar EID	18	2.1
Mwy o wybodaeth ar reoli tir glas	16	1.9
Diweddariadau ar ddeddfwriaeth/rheolau/rheoliadau	10	1.2
Helpu gydag ynni adnewyddadwy	9	1.1
Grantiau ar gyfer ffermydd bychain	9	1.1
Digwyddiadau mwy hygyrch	8	0.9
Helpu gyda meincnodi	8	0.9
Cyllid a chymorth gyda systemau trin	8	0.9
Mynediad at gyngor ariannol	7	0.8
Cyngor ar BREXIT	7	0.8
Mwy o gymorth gyda chynllunio ar gyfer olyniaeth	6	0.7
Helpu i reoli'r defnydd o goetir/coed	6	0.7
Mwy o wybodaeth ar reoli pridd	6	0.7
Cyngor marchnata	5	0.6
Helpu i wella proffidioldeb	5	0.6
Helpu gyda gwaith papur	5	0.6
Cyfanswm ymatebion	843	92.1
Cyfanswm heb ymateb	336	36.7

2018:

Adborth	Nifer yr ymatebion	Canran yr Ymatebion (%)
Gwell cyfathrebu a hysbysebu	75	12.0
Dim / aros fel y mae / adborth cadarnhaol	74	11.9
Mwy o grantiau	59	6.5
Gwell mynediad at grantiau	56	9.0
Hyfforddiant TG a chyfrifiaduron	44	7.1
Cyngor ar y Llywodraeth a BREXIT	39	6.3
Mwy o amrywiaeth o gyrsiau	37	5.9
Cyllid a gwybodaeth am arallgyfeirio	32	5.1
Cymorth gydag iechyd anifeiliaid	28	4.5
Mwy o wybodaeth ar reoli pridd	25	4.0
Cymorth ar gyfer ffermwyr ifanc	22	3.5
Mwy o gefnogaeth/grantiau ar gyfer ffermydd bychain	22	3.5
Cymorth gyda rheoli gwastraff	18	2.9
Mwy o wybodaeth ar gynllunio olyniaeth	16	2.6
Mwy o gymorth gyda chynllunio busnes	14	2.5
Mwy o gyfathrebu drwy'r post	8	1.3

Mwy o grwpiau trafod	7	1.1
Mwy o gyllid ar gyfer cyrsiau	6	1.0
Cymorth gydag iechyd a diogelwch	5	0.8
Gwybodaeth am ynni adnewyddadwy a'r amgylchedd	4	0.6
Cyfanswm ymatebion	623	68.1
Cyfanswm heb ymateb	292	31.9

Yr ymateb mwyaf poblogaidd yn 2016 a 2018 oedd y byddai cyfranogwyr eisiau mwy o grantiau, mewn amrywiaeth o ffurfiau, ond yn benodol ar gyfer ffermydd bychain. Byddai cyfranogwyr hefyd yn dymuno gweld y broses grantiau'n cael ei symleiddio neu ei hwyluso, neu dderbyn mwy o gymorth wrth ymgeisio am grantiau. Yn yr un modd, mae angen mynediad rhwyddach a phroses ymgeisio symlach wrth ymgeisio ar gyfer cyrsiau/hyfforddiant - roedd rhai'n gofyn am fwy ar lein ac eraill eisiau mwy ar bapur.

Mae'n bosibl bod hyn yn cael ei adlewyrchu yn y cais am ragor o hyfforddiant TG a chyfrifiaduron, gyda 6-7% o'r cyfranogwyr yn gofyn am hyfforddiant a chymorth yn y maes hwn. Mae hyn yn arbennig o boblogaidd, gan y bydd treth a TAW yn mynd yn gwbl ddigidol erbyn Ebrill 2019. Roedd nifer o'r ymatebion (mwy ohonynt yn 2018) yn nodi mai cysylltiad gwe gwael iawn os o gwbl oedd gan rai o'r cyfranogwyr ar eu daliad, a gallai hynny fod yn broblem benodol yn ystod y cyfnod pontio hwn. Mae Cyswllt Ffermio eisoes yn cynnig cymorth a chefnogaeth gyda'r cyfnod pontio digidol, ond mae'n bosibl y byddai hysbysebu ychwanegol neu argymhell cyfrifwyr sydd â phrofiad o weithio gyda busnesau fferm hefyd fod o fantais. Yn yr un modd, roedd nifer o'r cyfranogwyr yn dangos diddordeb mewn technoleg newydd (gan gynnwys systemau cyfrifiadurol) megis EID, ac y byddent yn dymuno cael rhagor o wybodaeth ynglŷn â sut y gellid defnyddio'r rhain yn eu busnes; mae'n bosibl y gellir gwneud hyn ar ffermydd arddangos, sy'n cynnig cyfle gwych i weld technoleg newydd ar waith. Mae'n galonogol gweld fod diddordeb gan y cyfranogwyr a'u bod yn barod i groesawu technoleg newydd i helpu i wella eu cynhyrchiant a'u proffidioldeb yn yr hirdymor.

Ymateb arall a gododd i'r cwestiwn hwn yn gyson oedd y byddai cyfranogwyr yn hoffi gweld gwell cyfathrebu a hysbysebu ynglŷn â'r hyn sydd gan Cyswllt Ffermio i'w gynnig, a allai hefyd gynyddu ymgysylltiad gyda gweithgareddau. Unwaith eto, roedd rhai ymatebwyr yn ffafrio mwy o gyfathrebu ar lein, ac eraill eisiau mwy drwy'r post neu ar bapur. Mae'n bosibl y byddai Cyswllt Ffermio yn gallu dechrau cyfathrebu drwy'r ddwy ffordd ac yna cynnig 'optio allan' o un i'r llall (i dderbyn popeth ar lein neu bopeth drwy'r post).

Yn 2018, roedd mwy o gyfranogwyr yn nodi pryder ynglŷn â BREXIT (o 7 ymateb yn 2016 i 39 yn 2018), sy'n ddealladwy wrth i'r dyddiad terfyn ym mis Mawrth nesau a bod y llywodraeth yn dal i gael trafferth cynnig atebion pendant i nifer o'r cwestiynau y mae ffermwyr yn eu holi. Gallai cynnig gwybodaeth gywir a diduedd (ar ffurf taflen ffeithiau er enghraifft) fod yn fuddiol ar gyfer aelodau Cyswllt Ffermio.

Ymateb arall poblogaidd oedd ar gyfer mwy o gefnogaeth - ariannol ac ymarferol - ar gyfer ffermwyr newydd neu ifanc. Roedd sawl ymateb yn nodi pryder mai ychydig iawn o bobl sy'n ymuno â'r diwydiant amaeth a bod angen cefnogaeth ariannol ar y genhedlaeth iau i barhau

gyda'r busnes teuluol. Mae hyn yn cael ei adlewyrchu yn y cais am gyllid ar gyfer prawf trelar, sy'n gymhwyster hanfodol na fyddai ffermwyr ifanc yn gallu ei ariannu eu hunain o bosibl.

Cafwyd nifer tebyg yn holi am wybodaeth a chefnogaeth ar gyfer arallgyfeirio a mwy o hyfforddiant/gwybodaeth am ieuchyd anifeiliaid. Mae hyn yn dangos bod y ffermwyr sy'n cymryd rhan yn ymwybodol o'r angen i arallgyfeirio o bosibl er mwyn gwarchod rhag BREXIT neu i ddiogelu dyfodol eu busnes. O ran y rhai a oedd yn gofyn am fwy o wybodaeth am ieuchyd anifeiliaid, byddai cyfranogwyr yn awyddus i gael mwy o gyswllt gyda milfeddygon ac maent wedi gweld budd mawr yn y cyrsiau sydd ar gael ar hyn o bryd.

Un o'r sylwadau mwyaf poblogaidd oedd fod Cyswllt Ffermio yn darparu'r math cywir o weithgareddau, cefnogaeth a gwybodaeth ar lefel briodol, a bod cyfranogwyr yn hapus gyda'r gwasanaeth. Roedd nifer o ymatebion yn mynd ymlaen i nodi eu bod wedi gweld cyrsiau penodol yn ddefnyddiol a bod cyfranogwyr yn dymuno ymgysylltu ymhellach gyda gweithgareddau Cyswllt Ffermio (gweler isod). Mae hyn yn galonogol iawn, ac er bod adborth yn bwysig, mae'n bwysig nodi bod cyfranogwyr yn gweld budd o'r ddarpariaeth bresennol.

208	Happy
209	Happy
210	happy
211	Happy as it is-doing a pretty good job
212	Happy as it is-doing a pretty good job
213	happy at the moment
214	happy at the moment
215	happy enough
216	happy with everything
217	Happy with everything
218	Happy with everything
219	Happy with everything
220	happy with everything
221	happy with everything
222	happy with everything
223	happy with everything
224	happy with everything
225	happy with everything
226	happy with everything
227	happy with everything
228	happy with everything
229	happy with everything
230	happy with everything
231	happy with everything
232	happy with everything
233	happy with everything
234	happy with everything
235	happy with everything
236	happy with everything
237	happy with everything
238	happy with everything
239	Happy with everything-when i need something i phone up and they point me in the right direction
240	Happy with everything
241	happy with everything
242	Happy with FC. It covers a lot of things
243	Happy with it as it is
244	Happy with the courses
245	happy with the courses available
246	happy with the schemes that are on offer, however need to improve/focus on diversification and
247	happy with the service that's being provided
248	happy with the services and courses on offer
249	happy with the services being offered at the moment
250	happy with the services being offered at the moment

251	happy with the services being provided at the moment,has found practical meetings more wort
252	happy with the services farming connect are providing
253	happy with the services that are being provided
254	happy with the services that are being provided
255	happy with the services that are being provided at the moment
256	happy with the services that are being provided at the moment
257	happy with the way we receive information
258	happy with what you're doing
259	happy with what's already being offered
260	happy with what's available
261	happy with what's available
262	happy with what's available at the moment
263	happy with what's available at the moment
264	happy with what's being offered
265	happy with what's being offered
266	happy with what's being offered
267	happy with what's being offered and has found farming connect very helpful
268	happy with what's being offered at the moment
269	happy with what's being offered at the moment
270	happy with what's being offered by farming connect at the moment
271	happy with whats on offer
272	happy with whats on offer
273	happy with whats on offer
274	happy with whats on offer
275	happy with whats on offer
276	happy with whats on offer
277	happy with whats on offer
278	happy with what's on offer
279	happy with what's on offer
280	Hapus gyda'r cymorth hyd yn hyn

Sylwadau i gloi

Mae'r ymatebion i'r arolwg yn dangos lefel dda o ymgysylltiad gyda gweithgareddau Cyswllt Ffermio gan ffermwyr yn arolwg 2016 a 2018, gyda'r canlyniadau'n awgrymu bod nifer o'r ffermwyr a holwyd yn defnyddio'r cyfleoedd sydd ar gael ac yn gwneud newidiadau ymarferol i'w busnesau. Mae'n arbennig o galonogol gweld ymwybyddiaeth o'r amgylchedd a diddordeb mewn technolegau newydd.

Y prif feysydd a amlygir yn yr arolwg yw'r angen am ragor o gefnogaeth gyda meincnodi a chynllunio busnes. Mae Cyswllt Ffermio ar hyn o bryd yn cynnig cefnogaeth a gwybodaeth ar y ddau bwnc; felly, gallai fod angen hysbysebu mwy er mwyn annog ffermwyr i ymgysylltu gyda'r gwasanaethau hyn. Yn wir, mae canlyniadau'r arolwg ar gyfer y cwestiwn olaf yn awgrymu y byddai aelodau'n dymuno derbyn mwy o gyfathrebu a gwell hysbysebu ynglŷn â hyfforddiant a'r gweithgareddau eraill y mae Cyswllt Ffermio yn eu cynnig.

Mae'n cael ei nodi hefyd y byddai cyfranogwyr yn gweld gwerth mewn derbyn cefnogaeth bellach ar gyfer defnyddio cyfrifiaduron; IT a phrosesau ar lein (e.e. TAW) a chronfeydd data. Ymateb arall a oedd yn boblogaidd o'r cwestiwn olaf oedd y byddai cyfranogwyr yn awyddus i weld mwy o gefnogaeth ar gyfer ffermwyr ifanc, a mynegwyd pryder mai ychydig iawn o bobl o gefndiroedd heb fod yn amaethyddol sy'n dod i mewn i'r diwydiant. Efallai dylai Cyswllt Ffermio ystyried cynnig cyrsiau neu becynnau gwybodaeth cychwynnol ynglŷn â hanfodion sylfaenol ffermio a sesiynau'n trafod mynediad i'r diwydiant.

Llyfryddiaeth

BBC (2018), 'New 50 mph limit to tackle air pollution in Wales' (mynediad ar 28/02/19 <https://www.bbc.co.uk/news/uk-wales-44495726>).

Beattie. A (2014), 'Succession planning – The Do's and don'ts of family succession', *Grains research and development corporation* (mynediad ar 25/02/19 <https://grdc.com.au/resources-and-publications/grdc-update-papers/tab-content/grdc-update-papers/2014/08/research-update>).

Bisdorff. B, Milnes. A & Wall. R (2006), 'Prevalence and regional distribution of scab, lice and blowfly strike in Great Britain', *Veterinary Record*, **158**(22): 749-752.

Bowles. L (2018), 'The Soil Association: Are you informed about liver fluke?' (Mynediad ar 26/02/19 <https://www.soilassociation.org/farmers-growers/farming-news/2018/june/are-you-informed-about-liver-fluke/>).

Chivers. C. A, Rose Vineer. H & Wall. R (2018), 'The prevalence and distribution of sheep scab in Wales: a farmer questionnaire survey', *Medical and Veterinary Entomology*, **32**(2).

Faysse. N, Srairi. T & Errahj. M (2012), 'Local farmer's organisations: A space for peer-to-peer learning?' The case of milk collection cooperatives in Morocco, *The Journal of Agricultural Education and Extension*, **18**(3): 285-299.

Undeb Amaethwyr Cymru (FUW) (2014), 'Sheep Scab: An overview of the disease in Wales' (mynediad ar 26/02/19 <http://fuw.org.uk/wp-content/uploads/2015/01/Sheep-Scab-20th-Aug-2014-FINAL.pdf>).

GB Veterinary Diagnostic network (2016-2019), 'GB Sheep Disease Surveillance Dashboard' (mynediad ar 26/02/19 https://public.tableau.com/profile/siu.apha#!/vizhome/SheepDashboard_/SheepDashboard).

Kerbler. B (2012), 'Factors affecting farm succession: the case of Slovenia', *Agricultural Economics*, **58**(6): 285- 298.

Lawrence. J. D, Shaffer. J, Hallam. A a Baas. T. J (1998), 'Factors Impacting Production and Economic Variability in Traditional Midwest Swine Enterprises', Journal Paper No J17494, *Iowa Agriculture and Home Economics Experiment Station*, Ames, Iowa, USA.

McKenna. P. B (1981), 'The diagnostic value and interpretation of faecal egg counts in sheep', *New Zealand Veterinary Journal*, **29**(8)

Roling. N. G a Wagemakers. M. A. E (2000), 'Participatory Learning and Adaptive Management in Times of Environmental Uncertainty' *Facilitating Sustainable Agriculture*, Cambridge University Press, UK.

Ronan. G a Cleary. G (2000), 'Best practice benchmarking in Australian agriculture: Issues and Challenges, Australian Agricultural and Resource Economics Society Inc.' *44th Annual Conference Proceedings*.

Rose. D. C, Keating. C a Morris. C (2018), 'Understand how to influence farmer's decision-making behaviour: A social science literature review', ADHB.

Sheep Health and Welfare Group (SHAWG) (2016), 'Sheep Health and Welfare Report for Great Britain 2016/17, Second Edition' (mynediad ar 26/02/19

<http://beefandlamb.ahdb.org.uk/wp-content/uploads/2016/10/SHAWG-report-2016-17-181016.pdf>)

Sheep Health and Welfare Group (SHAWG) (2018), 'Sheep Health and Welfare Report 2018/19, Second Edition' (mynediad ar 26/02/19 http://beefandlamb.ahdb.org.uk/wp-content/uploads/2018/11/SHAWG-REPORT_2018_11_19_WEB.pdf).

Suess-Reyes. J a Fuetsch. E (2016), 'The future of family farming: A literature review on innovative, sustainable and succession-oriented strategies', *Journal of Rural Studies*, **47**(A): 117-140.

Llywodraeth Cymru (2017), Fframwaith Cymru ar Iechyd a Lles Anifeiliaid (mynediad ar 26/02/19 https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2018-01/fframwaith-iechyd-a-lles-anifeiliaid-cynllun-gweithredu-2017-2018_0.pdf

Llywodraeth Cymru (2019), Ansawdd Aer yng Nghymru – Mesuriadau ansawdd aer diweddaraf (mynediad ar 28/02/19 <https://airquality.gov.wales/>).

Llywodraeth y DU (2018), 'Avian influenza (bird flu) this winter 2017 to 2018' (mynediad ar 26/02/19 <https://www.gov.uk/government/news/avian-influenza-bird-flu-in-winter-2017-to-2018>).